Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Options Tŷ Ni Cymru**

**Treffynnon**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

12/09/2023

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Options Tŷ Ni Cymru

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Options Autism (4) Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Tachwedd 2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff gofal yn deall anghenion corfforol ac anghenion llesiant emosiynol y bobl ac yn cael strategaethau clir o ran sut y dylid darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a thîm iechyd clinigol darparwr y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, yn cael eu hannog i fyw bywyd iach ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Caiff cynlluniau personol, cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ac asesiadau risg y bobl eu hadolygu, ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y bobl yn gallu cyflawni'r nodau a'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd ar eu cyfer.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd a thrylwyr gyda'r rheolwyr llinell. Mae digon o staff i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref, er bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n gyson. Fodd bynnag, mae darparwr y gwasanaeth wedi recriwtio staff gofal parhaol ychwanegol yn ddiweddar.

Mae'r cartref yn ddiogel, yn lân ac yn daclus a chaiff gwiriadau diogelwch eu cynnal yn rheolaidd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn adlewyrchu eu dewisiadau unigol. Maent yn symud o amgylch y cartref yn hyderus ac yn defnyddio amrywiaeth o ardaloedd ar gyfer amser preifat neu amser gyda'i gilydd a chyda'r staff gofal.

Caiff y cartref ei redeg yn dda gan dîm rheoli cryf ac ymrwymedig. Mae prosesau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i asesu ansawdd y gofal a ddarperir a chynnal safonnau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi hunaniaeth ac arferion unigol y bobl. Mae'r staff gofal yn rhoi dewisiadau i'r bobl o ran sut maent am gael eu cefnogi a threulio eu hamser, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu o'u dewis. Cynhelir cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd, gan gynnwys perthnasau, rheolwyr, a'r seicolegydd cynorthwyol. Mae hyn yn sicrhau bod nodau a chynnydd y bobl yn cael eu trafod â'r bobl allweddol. Dywedodd un rhiant wrthym: *“The care given by staff is tailored to the individual needs and abilities of the service user. They know the individuals and their families well and are willing to exchange ideas about the needs and wishes of each individual.”* Gall y bobl ddefnyddio gwasanaeth eirioli a gweld eu teuluoedd yn rheolaidd, ac mae'r staff gofal yn trefnu ac yn cefnogi hyn. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi diwylliant Cymru ac yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gyda rhai aelodau o'r staff yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac eraill yn gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd emosiynol y bobl eu blaenoriaethu a'u cefnogi'n dda. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gael gafael ar wasanaethau iechyd, sy'n sicrhau eu bod yn aros mor iach â phosibl. Mae'r cartref yn cydgysylltu â gweithwyr proffesiynol arbenigol am iechyd a llesiant y bobl, ac mae'r staff gofal yn trefnu ac yn mynd i wahanol apwyntiadau iechyd gyda'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn cyflogi tîm clinigol sy'n llunio rhaglenni a strategaethau i gefnogi'r bobl gyda'u hanghenion cyfathrebu, cymdeithasol ac iechyd. Mae'n cyfarfod â'r rheolwyr bob mis i drafod cynnydd a gofynion y bobl. Caiff meddyginiaethau eu storio a'u rhoi yn briodol, ac mae systemau clir a threfniadau archwilio rheolaidd ar waith. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo deiet iach ac anogir y bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hamdden.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag niwed.  Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae darparwr y gwasanaeth yn dilyn prosesau recriwtio staff diogel ac yn cwblhau'r gwiriadau priodol cyn i staff gofal ddechrau eu cyflogaeth, ac mae'r rheolwr yn monitro ymarfer y staff gofal. Mae asesiadau risg yn sicrhau bod unrhyw ofal a ddarperir neu weithgareddau a gynhelir mor ddiogel â phosibl.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant, Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas a chartrefol sy’n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Yn gyffredinol, caiff y cartref ei gadw'n lân ac yn daclus. Mae'r cartref yn cynnig preifatrwydd i'r bobl a chyfle i ymgysylltu ag eraill mewn ardaloedd cymunedol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol manwl a chyfredol ar waith. Caiff cynlluniau eu hadolygu a'u haddasu yn dilyn cyfarfodydd â pherthnasau a gweithwyr proffesiynol. Mae llesiant y bobl wrth wraidd y strategaethau gofal a chymorth a ddefnyddir. Mae'r tîm clinigol yn cyfarfod bob mis i adolygu cynnydd y bobl a rhoi cyngor ac arweiniad i'r staff gofal ynghylch y dulliau gorau o gefnogi'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal yn deall anghenion iechyd corfforol ac emosiynol y bobl, a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu hymddygiad, er mwyn i'r staff gofal allu ymateb yn briodol. Mae systemau ar waith i gofnodi digwyddiadau, gan gynnwys cofnodion ymyriadau corfforol. Mae'r rheolwyr yn defnyddio system effeithiol i oruchwylio cofnodion ac mae tystiolaeth bod dogfennaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru pan fydd newidiadau'n digwydd.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref wedi setlo ac mae'r staff gofal yn eu trin â pharch ac yn hyrwyddo eu datblygiad personol. Mae'r staff gofal yn wybodus ynghylch y bobl yn eu gofal ac yn deall eu hanghenion unigol. Mae'r staff gofal yn defnyddio dulliau rheoli ymddygiad cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol â pholisi cefnogi ymddygiad y darparwr gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar gefnogi ymddygiad, sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol gyda'r bobl. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio digwyddiadau yn dda a chynhelir sesiynau dadfriffio ar gyfer y bobl a'r staff gofal er mwyn trafod eu llesiant ac atal digwyddiadau tebyg. Mae'r staff gofal yn treulio amser un i un gyda'r bobl yn rheolaidd er mwyn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth. Cawsom adborth gan berthnasau'r bobl sy'n byw yn Tŷ Ni. Dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth ardderchog. Dywedodd un: *"Friendly and caring staff, who are well trained, approachable, and have excellent knowledge and experience of the needs of people in their care."*

Caiff asesiadau galluedd unigol eu cwblhau sy'n ystyried anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn pennu a oes angen gwneud penderfyniad er lles pennaf. Mae'r staff gofal yn dilyn y cyngor a'r canllawiau a roddir gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae darparwr y gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am faterion diogelu pan fydd angen. Mae systemau da ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel. Caiff ceisiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac asesiadau risg eu diweddaru yn ôl yr angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Disgrifir yr adeilad a'r cyfleusterau yn y datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn hapus gyda'u hystafelloedd eu hunain ac yn cael eu hannog a'u helpu i wneud dewisiadau ynglŷn â décor a dodrefn. Mae'r ardaloedd cymunedol yn cynnwys ffotograffau o'r bobl, sy'n creu ymdeimlad cartrefol, a gwelsom fod y bobl yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae ystafell fawr i fyny'r grisiau wedi cael ei rhannu'n ddwy, gydag un rhan yn cael ei defnyddio fel ystafell synhwyraidd. Mae'r ystafell hon yn ychwanegiad gwerthfawr at y cartref, gan gynnig ardal ddiogel a llonydd i'r bobl yn llawn profiadau synhwyraidd. Mae gardd ddiogel wrth ochr yr eiddo, sef ardal laswelltog serth yn bennaf. Er mwyn ymestyn y cyfleoedd chwarae, mae'r pennaeth gofal wedi gofyn am i ran arall o'r safle gael ei datblygu'n ardal chwarae awyr agored. Pe bai hyn yn cael ei wneud, byddai'n gwella cyfleoedd hamdden y bobl.

Cedwir cofnod o'r holl ymwelwyr â'r cartref. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch o'r eiddo a'r cerbydau yn cael eu cynnal. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd fel rhan o drefn ddyddiol y cartref, gan gynnwys tymheredd yr oergell a'r rhewgell a'r cyfarpar diogelwch tân. Caiff y boeler a'r cyfarpar trydanol eu gwirio'n flynyddol. Mae asesiad risg tân ar waith a chynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae darparwr y gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Mae datganiad o ddiben ar waith, sy'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir a sut y caiff ei ddarparu yn glir. Mae trefniadau addas ar waith i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn hwylus o ddydd i ddydd. Ceir llinellau cyfathrebu clir rhwng yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli. Ceir diwylliant agored a thryloyw ar lefel reoli o fod yn awyddus i gydweithio i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, sy'n gwella bywydau'r bobl a gefnogir.

Mae'r bobl yn cael gofal gan nifer diogel ac addas o staff gofal sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r cartref yn cyflogi rhai staff gofal asiantaeth ar hyn o bryd er mwyn bodloni'r cymarebau staffio dyddiol sy'n ofynnol i ddarparu gofal diogel; fodd bynnag, defnyddir yr un staff asiantaeth er mwyn sicrhau cysondeb. Mae darparwr y gwasanaeth wedi cyflogi staff gofal ychwanegol yn ddiweddar ac mae ganddo raglen recriwtio barhaus. Caiff yr holl staff gofal eu cefnogi yn eu rolau drwy gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer y tîm cyfan o staff, ac mae'r cofnodion yn dangos trafodaethau am gynnydd y bobl neu unrhyw faterion a all fod wedi codi. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod y rheolwr a'r staff gofal yn cael hyfforddiant addas i'w galluogi i ddarparu'r gofal cywir. Mae'r tîm clinigol yn darparu hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Cawsom adborth gan y staff gofal drwy drafodaethau ac arolygon. Dywedodd y staff gofal eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref, ond cymysg oedd eu sylwadau ynglŷn â theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo fod hyn yn ardderchog a dywedodd eraill fod angen ei wella. Dywedodd pawb fod y cyfleoedd dysgu a datblygu naill ai'n dda neu'n ardderchog.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth sydd â phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i fonitro'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu a sicrhau bod y staff yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau gan y rheolwr, y dirprwy reolwr a'r pennaeth gofal, a'r defnydd o ymwelydd annibynnol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, yn ymgysylltu â'r bobl a'r staff gofal, ac yn llunio adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal hefyd yn dangos ymarferion ymgynghori ac adborth gan weithwyr proffesiynol a rhieni. Mae'r adroddiad yn fanwl iawn ac yn rhoi tystiolaeth o gynnydd y bobl ac yn nodi meysydd i'w gwella ymhellach.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi